

O na byddai'n
haf o hyd

Wilia



RHIF 447 GORFFENNAF /
AWST 2022 50C

PAPUR MISOL
CYMRAEG ABERTAWE

JOSH OSBORNE YN ENNILL



Josh Osborne yw enillydd Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Yn wreiddiol o Poole yn Dorset, mae Josh, 24, bellach yn byw yn Abertawe.

Josh yw'r unig berson o'i deulu sy'n siarad Cymraeg, ac mae'n diolch i'w gariad Angharad am ei ysbrydoli i gychwyn dysgu'r iaith gwta ddwy flynedd yn ôl.

Dywedodd: "Dwi'n dysgu Cymraeg ers tua dwy flynedd bellach, ers i Angharad yrru dolen ata'i i gwrs dysgu Cymraeg ar-lein gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg.

"Mae fy niolch yn fawr i dri thiwtor, Helen Prosser, Angharad Devonald a Maldwyn Pate - diolch iddyn nhw, dwi'n gwneud yr arholiad uwch blwyddyn yma, ac yn medru edrych ymlaen at gael cymdeithasu a dod i adnabod mwy a mwy o bobl sy'n siar-

ad Cymraeg."

Mae'r fedal yn cael ei rhoi i berson 18-25 oed sydd wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Roedd angen i'r enillydd ddangos sut maen nhw'n defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd, yn ogystal â hyrwyddo ac annog y Gymraeg mysg eraill.

Roedd rhaid i Josh brofi ei sgiliau mewn diwrnod o dasgau, a osodwyd i brofi iaith, hyder a gwybodaeth y cystadleuwyr

terfynol.

Roedd hyn yn cynnwys paratoi postiad i gyfryngau cymdeithasol Eisteddfod yr Urdd, gwneud sesiwn holi ac ateb gyda Llywydd y Dydd, Robot Arwyn ynghyd â chyfweliad gyda beirniad y gystadleuaeth.

Beirniad Medal y Dysgwyr oedd Nerys Ann Roberts a Geraint Wilson Price.

Diolch i Cymru Fyw am y stori hon.

RHIAN MEWN RAS YN ERBYN CEFFYLAU

Bu Rhian Jones, o ardal St Tomos, yn rhedeg aml i farathon, ond yn ddiweddar mentrodd ar her dra gwahanol gan fentro ar y ras 'Man v Horse' yn nhref y campau anghyffredin yng nghanolbarth Cymru, Llanwrtyd.

Cwblhaodd y ras 21.5 milltir a oedd yn cynnwys dringfa o 4,000 o fedrau ar lwybrau llechweddog a diarffordd yr ardal.

Bu 1,000 o redwyr yn herio'r 50 o geffylau a marchogion gan redeg ochr yn ochr ar hyd y daith.

Roedd ras eleni yn un hanesyddol gan i un o'r rhedwyr guro'r ceffyl blaenaf am y tro cyn-taf ers 2007. Tybed beth fydd her nesaf Rhian?



Wilia Gorffennaf/Awst
yng ngofal Heini Gruffudd
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Anfonwch unrhyw beth a allai fod o
ddiddordeb i'n darllenwyr
ar gyfer y rhifyn mis Medi
erbyn Awst 24:

wilia@hotmail.co.uk




Ariennir yn Rhwngedol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

CYMDEITHAS WALDO'N DARLLEN GWEITHIAU'R BARD

Amcanion:

- i) Diogelu'r cof am waith a bywyd Waldo Williams a ystyrir yn un o lenorion mwyaf dylanwadol Cymru ac yn fardd o statws rhyngwladol;
- ii) Hyrwyddo cyfraniad Waldo Williams at lèn a diwylliant Cymru



Mae boddhad i'w gael bob amser wrth droi at gerddi Waldo. Pleser ychwanegol yw eu darllen yn uchel, gan brofi'r rhythmau pwerus a sain esmwyth y geiriau. Ar ben hynny, bydd yr achlysur yn codi arian i gadw'r cof am y bardd yn agos at glust ei wlad. Bydd yn brofiad i'w werthfawrogi ar sawl cyftri!

Ychwanegodd Emyr Llywelyn, un o lywyddion anrhydeddus Cymdeithas Waldo: Diolch i Mererid Hopwood ac Alun Ifans, Maenclochog, am drefnu 'Waldothon' noddedig gyda deunaw o bobl ledled Cymru yn darllen cerddi Waldo ar y 1af o Hydref. At bwy y trown pan mae'r 'byd yn chwâl' am ysbrydoliaeth? At bwy ond Waldo - â'i weledigaeth am frawd-garwch dyn, am heddwch a phwysigrwydd iaith a bro. Cynhelir y 'Waldothon' am 10 o'r gloch y bore, Sadwrn, Hydref y 1af, 2022. Mae hyn ddiwrnod ar ôl 'Diwrnod Waldo' sef Medi 30ain. Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun Ifans neu Mererid Hopwood

trwy ddehongli a chreu ymwybyddiaeth ddyfnach o'i waith yn lleol ac yn genedlaethol.

WALDOTHON

Mae ar bob mudiad, elusen, clwb a chymdeithas angen arian i barhau â'r gwaith da maen nhw'n ei wneud, a dydy Cymdeithas Waldo ddim yn wahanol.

Oherwydd hynny, mae Cymdeithas Waldo'n trefnu 'Waldothon' gyda'r bwriad o godi arian drwy noddi darlleniadau o'i holl gerddi. Mae 317 o gerddi Cymraeg a 27 o gerddi Saesneg yng nghyfrol Alan Llwyd a Robert Rhys, Cerddi Waldo 1922–1970 (Gwasg Gomer: 2014) sy'n gwneud cyfanswm o 344 i gyd. Bydd ugain o bobol ar draws Cymru yn arweinyddion grwpiau i ddarllen tua 20 o gerddi Waldo ac mae gwahoddiad i bobl ledled y wlad i noddi'r darlleniadau fesul £5 y gerdd. Meddai'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd:

YR HINSAWDD YN YR EISTEDDFOD

Yn yr eisteddfod yn Nhregaron, bydd stondin gan Wrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion, neu XR) yn Lloeren y Pentre (sef y babelll enfawr). Bydd tair Sgwrs gan y grŵp yn ystod yr wythnos: Ddydd Iau am 14.45 - 15.30 yn Sfferen y Pentre Gwyddoniaeth bydd sgwrs dan y teitl '*Yr argyfwng hinsawdd a beth gallwn ni ei wneud amdano*'. Bydd Dr Rhian Barrance, Darlithydd Gwyddorau Cymdeithasol a Llefarydd dros Wrthryfel Difodiant (XR) Cymru yn ei thraddodi. Ddydd Gwener am 9.30 - 10.30 ym mhabelll Cymdeithasau 2, bydd Rhian yn dilyn trywydd gwahanol: '*Trwy ddulliau chwyldro'n unig? Dulliau ymgyrchu yng Nghymru*'. Bydd hi'n sôn am hanes anufudd-dod sifil yng Nghymru gan ystyried sut mae'r ymgyrch dros yr iaith Gymraeg wedi dylanwadu ar actiffaeth dros achosion eraill. Bydd yn cyfweled ag ymgyrchwyr o fudiadau gwahanol, gan gynnwys **Angharad Tomos**, a garcharwyd am weithredu dros yr iaith Gymraeg. Ddydd Gwener am 13.00 - 13.40 yn Sfferen y Pentre Gwyddoniaeth bydd '*Panel Holi: Sut mae mynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd? Y*

Gwir yn Erbyn Diwedd y Byd' gyda phanel o aelodau o Wrthryfel Difodiant (XR). Os nad yw Sgyrsiau at eich dant, gallwch roi cynnig ar rywbeth ymarferol fel **Bloc-brintio**. Bob dydd yn ystod yr wythnos, gan gynnwys y ddau ddydd Sadwrn a dydd Sul, rhwng 10.45 - 12.45, galwch heibio i stondin Gwrthryfel Difodiant yn Lloeren y Pentre Gwyddoniaeth. Cewch ddefnyddio blociau argraffu i greu delweddau trawiadol mudiad XR. Darperir yr holl ddeunyddiau gan gynnwys inciau ecogyfeillgar a chymorth - neu dewch â'ch dilledyn neu ffabrig eich hun i'w hargraffu. Byddwch yn barod i wrthryfela dros yr hinsawdd!

**GŴYL 20
TAWE 22**

**LOS BLANCOS
PARISA FOULADI
YNYS
Y DAIL**

Railway Inn 09.07.22 2pm - 7pm
Mynediad am ddim / Free entry

MIKE HEDGES YN CROESAWU CAEL RHAGOR O ATHRAWON CYMRAEG



Mae Mike Hedges, AS Dwyrain Abertawe, yn croesawu'r cyhoeddiad am gynllun deng mlynedd gan fod angen i ni gynyddu nifer y bobl sy'n gallu addysgu'r cwricwlwm llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd yn ateb y galw ychwanegol yr ydym yn ei weld ar draws pob rhan o Gymru ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg. Y nod yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae'r cynllun hwn yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targed uchelgeisiol hwn. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- cefnogi graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr i ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu;
- ehangu'r ystod o bynciau uwchradd sydd ar gael i bobl sydd mewn cyflogaeth ac sydd am hyfforddi i addysgu;
- rhoi cymorth i israddedigion gael profiad o fod mewn ystafell ddosbarth, fel llwybr i addysgu;
- treialu cynllun bwrsariaeth i gadw athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd;
- treialu lleoliadau cynorthwywyr addysgu blwyddyn i ffwrdd ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £1m yn ychwanegol eleni i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, gan ddod â'r cyfanswm i £9 miliwn, gyda chynlluniau i gynyddu'r cyllid dros y ddwy flynedd ddilynol. Bydd £500,000 o'r cyllid newydd yn cael ei ddarparu i ysgolion unigol i helpu i dyfu eu gweithlu Cymraeg eu hiaith.

WILLIAM BRACEWELL— O LÔN LAS I FOD YN BRIF DDAWNSIWR Y BALE BRENHINOL



William Bracewell yw'r Cymro cyntaf i ddod yn brif ddawnsiwr y Bale Brenhinol. Roedd William yn ddisgybl yn Ysgol Lôn-las a phan oedd yno bu'n mynychu Ysgol Fale Pamela Miller.

Y pryd hwnnw roedd ei rieni'n rhedeg Canolfan arddio yng Ngwmrhdyceirw. Yn 11 oed cafodd gyfle i fynd ar brawf i'r Ysgol Fale Frenhinol, a chafodd ei dderbyn.

Yn sgil hyn, cafodd with mlynedd o hyfforddiant. Meddai William, "Roedd hyn yn golygu newid bywyd mawr—newid Abertawe am fywyd mewn ysgol breswyl yn Llundain.

"Cymerais y cyfle, ond roedd yn ddigon anodd i gychwyn—roedd tipyn o hiraeth arna i, ond ces i ffrindiau da, a llawer o hwyl, a hyn oedd sail fy ngyrfa.

Doedd e ddim yn siwr i ble byddai hyn yn arwain, ond yn 13 oed cafodd ddawnsio am y tro cyntaf yn y Ty Opera Brenhinol, o flawn cynulleidfa o 2,500.

Doedd dim cefndir dawnsio yn y teulu. Bu ei fam Patsy yn fydwraig, a ddysgodd y Gymraeg.

Un o bleserau William yn awr yw ymweld â'i fam, sy'n byw bellach ym Morth Eionon., "Mae'n hyfryd mynd yno at y môr," meddai William, "rwy'n mynd adre mor aml ag y galla i, ond does dim llwyth o amser 'da fi bob amser."

Meddai Patsy eu bod wedi trefnu gwersi bale i William er

mwyn iddo ddefnyddio'i egni. Bu ei dad, Les, yn llai llwyddiannus i'w gael i chwarae rygbi.

Cychwynnodd gyrfa William ym Male Brenhinol Birmingham yn 2010 ac yn daeth yn ôl i'r Bale Brenhinol yn 2017.

Mae'r dyddiau yno'n gallu bod yn hir, gan gychwyn gyda dosbarth bale, a rihysal, ac yna rihysal eto cyn perfformio fin nos, tan tua 10.

"Mae'n fywyd caled. Ces i anawsterau corfforol, a bu'n rhaid i fi gymryd 11 mis i ffwrdd, a ddim yn siwr wedyn a fyddwn yn gallu cyrraedd yr un safon.

"Roedd pethau'n anodd wrth i mi boeni am hyn, ond diolch byth, ces i ffisiotherapi gwych, a dod yn ôl yn gwbl ffit."

Erbyn hyn, fe yw prif ddawnsiwr y Bale Brenhinol. "Mae'n anrhydedd—ychydig iawn o bobl sy'n cael y swydd yna." Ei gyngor i rai sy'n meddwl dawnsio: "Bu'n waith caled, ond mae hi'n werth ei wneud—a does dim rhaid i chi fod yn ddawnsiwr proffesiynol i fwynhau dawnsio fel rhan o'ch bywyd."

Addaswyd o *Weekend y Western Mail*. Llundain o Facebook.



ADLONIAN YN NHY TAWE

Mae nosweithiau adloniant poblogaidd wedi eu cynnal yn Nhy Tawe. Ymysg y cerddorion a ddaeth i ganu mewn gigiau ym mis Mehefin roedd Al Lewis (llun isod) o Bwllheli. Cyhoeddodd sawl CD yn ystod y 15 mlynedd diethaf, ac mae i'w glywed yn aml ar y cyfryngau.

Dwy arall a ddaeth oedd Eädyth ac Izzy Rabey (llun ar y gwaelod). Daw Izzy o Fachynlleth, a bu'n gweithio gyda nifer o gwmnïau theatr. Bu'n gweithio hefyd gyda phobl ifanc.

Mae hi'n cyfansoddi caneuon ac yn cydweithio gydag Eädyth, sy'n dod o Ynys Owen, ger Merthyr. Mae hi'n canu yn y ymraeg a'r Saesneg, ac i'w chlywed yn aml ar y cyfryngau. Bu'n rhannu cyngerdd yn ddiweddar gyda Mangka o India, mewn prosiect cysylltiadau diwylliannol a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig.



Chwythu'r Trymped?

gan Rob Evans

Mae bywydau llawer o bobl wedi newid yn ystod y ddwy flynedd o ddiodeff Cofid, bywyd rhai wedi cael ei ddiinstrio'n llwyr ac mae ein cydymdeimladau ni efo nhw. Mae ffordd o weithio rhai wedi newid hefyd ac, ar ôl gorfod cadw pellter oddi wrth ffrindiau, mae effaith negyddol wedi bod ar ein cymdeithasau. Mae'n mynd i gymryd llawer o amser i ail-ennill normalrwydd, os yn wir yr ydym yn cofio'r fath beth.

Roedd rhaid meddwl am ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a, diolch byth mae cyrsiau Cymraeg ar lein wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Nid yn unig yng Nghymru ond dros y byd i gyd. Wrth ddefnyddio Zoom mae pobl dros y byd wedi gallu profi dysgu Cymraeg – ac wedi mwynhau.

Mae fy mynd i wedi newid yn llwyr, er fy mod i wedi ymddeol ers bron ugain mlynedd erbyn hyn dw i'n brysur dros ben a hynny'n tarddu o'r ffaith dw i'n ofni segurddod. Dyna beth oeddwn i'n wynebu ar ddechrau'r cyfnod clo. Sut oeddwn i'n mynd i oroesi cyfnod hir o wneud

dim byd? Ers i mi fod yn diwtor Cymraeg dw i wedi edmygu dysgwyr a chyn i mi ymddeol roeddwn i'n cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw Y Wnnol.

Nes i benderfynu ei atgyfodi ond roedd rhaid cael pobl i gyfrannu erthyglau, ac yn gyson. Fel mae'n digwydd roeddwn i wedi bod yn ymweld â grŵp o

ddysgwyr a oedd wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol mewn caffi yn yr ardal. Anfonais e-bost atyn nhw a dysgwyr



eraill roeddwn i'n adnabod. Mewn pythefnos roedd rhifyn mis Ebrill 2020 wedi ei gyhoeddi, dim ond chwe dudalen ond roedd gen i gyfranwyr brwdfrydig ac erbyn hyn mae wedi chwyddo i ddeunaw o dudalennau. Mae dros ddeugain o ddysgwyr wedi cyfrannu ac mae dros dri chant a hanner o ddarlennwyr. Mae lefel yr erthyglau yn amrywio o rai syml ar gyfer dechreuwyr pur hyd at erthyglau am hanes Cymru i'r rhai profiadol.

Dw i'n mwynhau mynd trwy'r erthyglau a'u trafod efo'r cyfrannwyr cyn eu cyhoeddi a gweld yr hyder a'r safon yn codi wrth i'r misoedd fynd heibio. Mae gen i falchder yn y llwyfan dw i wedi creu, dw i'n gweithio ar yr 28ain rifyn ar hyn o bryd ac ychydig o wythnosau yn ôl ces i newyddion i wir godi fy nghalon. Mi wnaeth dwy o gyfranwyr cyson Y Wnnol ennill cystadleuaeth ysgrifennu Merched y Wawr, y wobwr gyntaf a'r ail!

Y rheswm dw i'n ysgrifennu'r erthygl yma yw er mwyn ddangos i chi gwerth y dysgwyr yn ein plith, maen nhw'n frwdfrydig ac eisio defnyddio'r iaith maen nhw wedi bod yn gweithio mor galed i'w feistroli. Agorwch y drws i'ch cymdeithasau iddyn nhw, mae ganddyn nhw lawer i'w gynnig. Cysylltwch â'ch tiwtor lleol er mwyn creu llwybr o'r dosbarthiadau i'r gymdeithas, mae trysor yna ar gael i chi. Trysor a fydd yn cadw'r iaith i fynd.

Roeddwn i'n ymwybodol o frwdfrydedd dysgwyr cyn i mi ail-ddechrau'r Wnnol ond mae'r profiad wedi agor fy llygaid i'r posibilïadau sydd o'n blaenau ni.

Chwythu trymped fy hun? Nac ydw - chwythu trymped dysgwyr ydw i!



PRIFYSGOL ABERTAWÉ'N HYRWYDDO'R GYMRAEG



Mae'r strategaeth hon, [Camu Ymlaen – Strategaeth Iaith a Diwylliant Cymraeg Prifysgol Abertawe 2022-27](#), yn cydweddu â [Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol](#) a gyhoeddwyd yn 2020, ac yn fodd o adeiladu ymhellach ar ymrwymiad y Brifysgol i ehangu'r ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a chael profiad o'r Gymraeg.

Mae'r Gymraeg wedi bod yn greiddiol i waith a darpariaeth y Brifysgol ers ei sefydlu yn 1920. Yn sgil sefydlu Academi Hywel Teifi yn 2010 a'r cydweithio llwyddiannus sydd wedi datblygu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gwelwyd trawsnewidiad cenedlaethol i'r addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr, ac yn Abertawe mae'r ddarpariaeth yn eang ac yn gyfoethocach nag erioed.

Gyda chyflwyno rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn y Brifysgol yn 2018, hwyluswyd cynnydd pellach yng ngwasanaethau Cymraeg rheng flaen y sefydliad, ac mae gwaith Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe wedi galluogi siaradwyr newydd ar y campws ac yn y gymuned fel ei gilydd i gael mynediad at yr iaith.

Mae sylfaen gadarn, felly, i'r strategaeth hon a'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, a'r nod yn ystod y pum mlynedd nesaf yw

adeiladu ymhellach ar y sylfeini hynny er mwyn sicrhau cynnydd parhaus, a galluogi'r Brifysgol i gymryd ei lle yn hyderus ymhlith y prifysgolion hynny yng Nghymru sy'n croesawu, yn dathlu ac yn hyrwyddo'r

Gymraeg a Chymreictod.

Er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bedwar piler allweddol.

Diwylliant Prifysgol Abertawe, gan sicrhau ei bod yn brifysgol sy'n

gartref i gymuned o fyfyrwyr a staff amlieithog ac amlddiwylliannol sy'n groesawgar ac yn ffyniannus.

Profiad y dysgwr, gan feithrin amgylchedd cefnogol sy'n helpu pawb sy'n dysgu Cymraeg i wneud cynnydd, beth bynnag yw lefel eu gallu.

Gwreiddio'r Gymraeg ledled y Brifysgol, gan alluogi'r sefydliad i gydymffurfio â gofynion rheoliadau safonau'r Gymraeg a rhagori arnynt.

Cefnogi ymchwil a chenhadaeth ddinesig y Brifysgol, gan gydnabod gwerth y Gymraeg i'n hymchwil a'n gweithgareddau

arloesi, a'i heffaith ar ein cenhadaeth ddinesig.

Mae Cynllun Gweithredu cynhwysfawr i gyd-fynd â'r strategaeth gydag ymrwymiad gan adrannau ar draws y sefydliad cyfan i wireddu'r amcanion er mwyn dathlu a hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau ei bod i'w gweld a'i chlywed ym mhob agwedd ar fywyd y Brifysgol.

Meddai'r Athro Elwen Evans CF, Dirprwy Is-ganghellor y Gymraeg a'i Diwylliant: "Mae'r strategaeth hon yn dangos fod Prifysgol Abertawe yn camu ymlaen yn hyderus i'r cyfnod nesaf yn ein hanes, gan adeiladu ar y twf aruthrol sydd wedi ei brofi nid yn unig yn yr addysg cyfrwng Cymraeg rydym yn ei darparu ond hefyd yn y gwaith o amlygu Cymreictod ein gymuned. Prifysgol sydd â'i gwreiddiau yng Nghymru a phrifysgol i Gymru ydym ni, ac rydym yn dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig mewn modd cynhwysol a chroesawgar.

"Mae'r strategaeth hon yn cydnabod gwir natur Cymru'r 21ain ganrif gyda'i dwy iaith swyddogol a'i chymdeithas amlddiwylliannol ac aml-ethnig. Mae'n amlygu ein bwriad i sicrhau bod pawb sy'n byw, yn astudio neu'n gweithio yng Nghymru neu sy'n ymweld â'r wlad yn medru profi popeth sydd gan y genedl unigryw hon i'w gynnig yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod y Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth yn rhan annatod o'r profiadau ffurfiannol hynny ar gyfer ein holl fyfyrwyr, a bod ein siaradwyr Cymraeg yn elwa'n llawn ar astudio mewn prifysgol sydd â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol gwerthfawr."

R'E'D'E'A'T YN FALCH O GYFLWYNO / PROUDLY PRESENTS
NOSON ROC AMGEN CYMRAEG
A NIGHT OF ALTERNATIVE WELSH LANGUAGE ROCK

BREICHAU HIR
 BAND O 6 O GAERDYDD YW BREICHAU HIR, YN EISTEAD ORYWLE RHWNG EMO A PUNK.
 CARDIFF 6-PIECE, BREICHAU HIR COMBINE URGENT AGGRESSION WITH MELODY,
 SITTING SOMEWHERE BETWEEN EMO AND PUNK.

PATRYMA
 BAND ROC AMGEN O OCHRAU CAERNARFON.
 ALTERNATIVE ROCK BAND FROM CAERNARFON AREA.

THE NIGHT SCHOOL
 BAND ROC WEDI'I LEOLI YN ABERTAWÉ, CYMRU.
 ROCK BAND BASED IN SWANSEA, WALES.

CYFLWYNWYD MEWN CYSYLLTIAD A/
 PRESENTED IN ASSOCIATION WITH
 MENTER IAITH ABERTAWÉ

DYDD GWENER GORFFENNAF 15 FED 7.30YH. FRIDAY JULY 15TH 7.30PM
 Tŷ Tawe 9 Stryd Christina, Abertawe / 9 Christina St, Swansea SA1 4EW
 TICEDI O FLAEN LLAW / ADVANCE TICKETS £8 / £5 - WEGOTTICKETS.COM
 £8 / £7.50 / WRTH Y DRWS / ON THE DOOR

Eleri Gwilym yn perfformio yn Carmen Bizet

Bu Eleri Gwilym, o Sgeti yn aelod o gorws Opera Holland Park, Llundain fis yma yn eu cynhyrchiad o Carmen gan Bizet. Cynhyrchiad cyffrous a deallus wedi'i gyfarwyddo gan Cecilia Stinton.

Roedd 10 perfformiad i gyd yn cynnwys un perfformiad hamddenol i'r sawl sy' angen amgylchedd mwy hamddenol wrth fynd i'r theatr. Fel arfer, oedolion neu blant yw'r rhain ag anawsterau dysgu, awtistiaeth neu anhwylderau cyfathrebu synhwyraidd. Roedd aelodau o'r gynulleidfa yma yn gallu cyrraedd yn gynnar i weld y cast, cyffwrdd a'u gwisgoedd, gwallt ac ati cyn y perfformiad.

Awditoriwm awyr agored â chanoپی gyda 700 cant o seddi yw cartref Opera Holland Park gyda gweddillion Ty "Holland House", gafodd ei ddirinrio gan fomiau tân yn ystod yr



Ail Ryfel Byd, yn gefndir i'r theatr.

Bu Eleri yn ddisgybl yn Ysgolion Cymraeg Bryn -y- Môr a Bryn Tawe a Choleg Gwyr. Wedi graddio yn y Gyfraith (gyda'r Gymraeg) ym Mhrifysgol Caerdydd aeth ymlaen i'r Academi Frenhinol yn Llundain i ddilyn cwrs Meistr mewn llais.

Mae'n byw yn Llundain a dyma ei hail dymor gyda chwmmi

Holland Park. Mae hefyd wedi canu gyda chwmmi Opera Buxton ac Opra Cymru, ymysg eraill.

Bydd Eleri yn gwireddu rôl "Brenhines y Nos" yn Opera enwog Mozart "Y Ffliwt Hud" gyda Kent Chamber Opera yn yr Hydref.

DYFODOL WILIA

Bydd gwirfoddolwyr Wilia'n cyfarfod ganol Gorffennaf i drafod Dyfodol y papur.

Mae posibilrwydd na fydd cyllid Llywodraeth ar gael i'r papur oni bai ei fod yn cael ei gyhoeddi ar bapur. Bydd Wilia'n trafod y posibilïadau gyda'r Llywodraeth.

Yn y cyfarfod trafodwyd y posibilrwydd o benodi ysgogwr am rai misoedd i annog sefydliadau Abertawe i anfon storiâu i wefan Wilia a gaiff ei sefydlu ar Bro360.

Yn y cyfamser mae Wilia wedi

cychwyn safle ar facebook, ac mae modd i bawb anfon storiâu a lluniau i'r safle yma.

Mae croeso i bawb sydd am gynorthwyo Wilia i gysylltu â'r papur ar wilia@hotmail.co.uk.

Yn y cyfamser mae Wilia'n cael ei gynhyrchu ar bapur y mis yma, a hefyd ym mis Medi.

Mae nifer o bosibiliadau'n cael eu trafod gan Wilia.

Yn eu mysg mae

- Cynhyrchu'r papur bedair gwaith flwyddyn, ar bapur, a'r papur ar gael am ddim. Byddar papur yn cynnwys manylion holl sefydliadau

Cymraeg y ddinas, ac yn ddolen gyswllt i'r Gymraeg

- Cynhyrchu fersiwn pdf a allai gael ei anfon at ddarllenwyr. Gwneir hyn ar hyn o bryd.
- Cynnal presenoldeb ar y we.



CAMPAU YSGOL GWYR Taith y Ty i Amgueddfa'r Glannau



Aeth disgyblion y Ty i Amgueddfa'r Glannau yn ddiweddar.



Campau'r Adran Addysg Gorfforol

Mae'r Adran Addysg Gorfforol mor falch o bob disgybl a gynrychiolodd yr ysgol yn Mabolgampau ANT. 4 tîm mas o 4 yn y safle Iaf! Cynrychiolodd Gavin Alexander y Cymru ym mhencampwriaeth paffio Prydain. Daeth Gavin yn ail yn y categori 44kg. Llongyfarchiadau i Tomas ar gael ei ddewis yn Nhîm Jiwdo Cymru a fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain. Rydym yn falch iawn! Llongyfarchiadau mawr i Mali Bl.7 sydd wedi ennill medal arian ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Prydain. Llongyfarchiadau i



fechgyn Ysgol Gyfun Gŵyr sydd wedi cael eu dewis yn Sgwad Hyfforddi Gorllewin dan 16 y Gweilch! Llongyfarchiadau i Asia Bl.9 ar ennill cystadleuaeth Welsh Championship gymnasteg rhythmig Cymru.

Gweithgareddau Pontio



GWYL TAWE

Dychwelodd Gŵyl Tawe, unig ŵyl iaith Gymraeg Abertawe, i'r Railway Inn yn Cilâ ar ddydd Sadwrn y 9fed o Orffennaf. Yn dilyn yr ŵyl gyntaf yn 2021 gyda pherfformiadau gan Bwca, Mari Mathias, a Papur Wal, gwelodd yr ŵyl eleni eto berfformiadau arbennig gan yr artistiaid iaith Gymraeg mwyaf blaengar gyda Los Blancos, Parisa Fouladi, Y Dail, ac Ynys.

Wedi lleoli yn Nyffryn Clun ac ar ymyl Penrhyn Gŵyr, mae'r Railway Inn ond yn daith fer ar y bws neu'r beic o ganol dinas Abertawe ac yn cynnig dewis gwych o gwrw a lluniaeth lleol yn ogystal â phabell awyr agored ar gyfer cerddoriaeth fyw.

Roedd y digwyddiad yn hollol rad ac am ddim, gyda'r dafarn yn

agor am ganol dydd a cherddoriaeth rhwng 1 a 7 yn y prynhawn. Cafodd y digwyddiad ei gynnal mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe a gyda chefnogaeth y cynllun Haf o Hwyl, a bydd cyfleoedd penodol i bobl 18-25 dysgu mwy ynglŷn â'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg am ddim sy'n cychwyn ym mis Medi.



Croesawyd disgyblion Bl.6 ysgolion y dalgylch i wythnos o weithgareddau gan gynnwys Mabolgampau, Proms Cerddoriaeth a mwy. Rydym yn edrych ymlaen i'w croesawu fel disgyblion Ysgol Gyfun Gwyr ym mis Medi.

Ffarwelio a Bl.11 a 13.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd a phryd o fwyd blasus Meccicaidd gan Cegin Mr Henry i ffarwelio gyda Bl.13 a diolch iddynt am eu cyfraniad i fywyd yr ysgol. Mwynhaodd Bl.11 eu prom yn Stadiwm y Liberty a Bl.13 eu prom yn Abertawe hefyd. Pob lwc i'r dyfodol!

Y GYMRAEG YM MRYN TAWE

Braf oedd gwobrwyo Cymreictod disgyblion o bob dosbarth yr wythnos hon gydag achlysur cymdeithasol yn cynnwys siocled poeth a bisgedi!

CWIS LLYFRAU



Nhy Tawe 24/6/22. Di-olch yn fawr i Aneirin Karadog, Tudur Dylan Jones ac Elin Meek am gymryd yr awenau ar y diwrnod a sicrhau bod pawb yn mwynhau dysgu cynganeddu. Roedd y 25 disgybl o fl.10-13 wedi mwynhau'n fawr a llwyddwyd i ysgrifennu cywydd erbyn diwedd y dydd!

Taith Bl.8 i Fae Caerdydd

Ar ddiwedd Mehefin, aeth 90 o ddisgyblion bl.8 yr ysgol ar daith i Fae Cerdydd i ymweld â'r Senedd. Braint oedd gweld yr adeilad a'r si-

Llongyfarchiadau enfawr i'r criw o ddisgyblion blwyddyn 7,8 a 9 a fu'n rhan o'r Cwis Llyfrau eleni. Menter newydd yw'r Cwis Llyfrau rhyngddon ni fel ysgolion Bryn Tawe, Gŵyr, Ystalyfera a Bro Dur.

Ein bl.9 ni ym Mryn Tawe enillodd y gystadleuaeth i fl.9. Diolch yn fawr i Ysgol Gŵyr am ein croesawu ni ar gyfer y gystadleuaeth ac i Alun Gibbard am feirniadu. Er mai 4 o bob blwyddyn oedd yn rhan swyddogol o'r cystadlaethau, hoffem longyfarch y criwiau cyfan a fu'n darllen a thrafod yn ystod y flwyddyn.

Bl.7- Osian Davies, Ioan Morgan, Ava Thomas, Dafydd Euros, Llywelyn Gannon, Llinos Gould, Joel Southam

Bl.8- Hannah Thomas, Lily Brenan, Carys Grant, Sally Corbett, Millie Frovine, Evie Workman

Bl.9- Mariella Romano, Catrin James, Ifan Saunders, Lucy Ley



GRANT COLEG CYMRAEG

Gan ddefnyddio grant y Coleg Cenedlaethol Cymraeg i hyrwyddo Cymraeg Safon Uwch, trefnom ddiwrnod o weithdy cynghanedd yn

ambr a dysgu mwy am ein Senedd. Diolch yn fawr i Mike Hedges am ddod i gwrdd â ni hefyd. Cafodd pawb amser hyfryd hefyd yn mwynhau cinio a hufen ia yn y bae.

